**CYNGOR TREF DOLGELLAU**

**Presennol:** Bob Gunton, Jo Checkley, Heilyn Williams, Peter Jones, Ywain Myfyr, Ray Peters, Liz Hughes, Sion Edwards, John Cadwaladr.

**Ymddiheuriadau:** Dyfrig Siencyn. Nia Evans . Jess John, Llinos Rowlands, Rhys Williams (Clerc)

**Gwestai:** John Raghobar, John Lewis, Janet Baker.

**Cyfarfod gyda Aelodau Partneriaeth Dolgellau** – Dyfodol cyfrifoldebau Parc Dolgellau.
Daeth tri o aelodau presennol Partneriaeth Dolgellau i'r Cyfarfod. Hysbyswyd y Cyngor o'u bwiar o dynnu nôl o ofalaeth Parc Chwarae'r Dref a hynny o Ebrill 1af, 2026. Eu dymuniad yw bod y Cyngor Tref yn cymryd gofalaeth o'r Parc Bellach.
Penderfynwyd ffurfio is-bwyllgor i ystyried oblygiadau hyn ac edrych am y ffordd ymlaen. Aelodau Is-Bwyllgor y Parc fydd; Liz Hughes, Peter Jones, Branwen Dafydd, Heilyn Williams a Nia Wyn Evans.

**I Dderbyn a Chymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2025 (Atodlen)**
Cynigwyd bod yn cofnodion yn gywir gan Heilyn Williams, eiliwyd hyn gan jo Checkley.

**C 50 2026 Coedd Ffynnon Fair – dim y Cyngor sydd yn berchen – Bryn Mair –**
Nodwyd nad y Cyngor Tref sy'n berchen ar y tir sy'n arwain tuag at Goed Ffynnon Fair

**Materion yn codi o'r Cofnodion, gan gynnwys:**
**Adborth o unrhyw weithgareddau Is-Bwyllgorau, yn benodol:**
**Is-Bwyllgor Prosiectau:**
Cofeb Hir Dymor am Ddigwyddiad Tragedi Penmaenpool – Derbyniwyd dau bris gan gwmniau i wneud y gwaith

**Trwydded Gyhoeddus ar gyfer Eldon Square a lleoedd cysylltiedig – penderfyniad ar ddyddiad cyfarfod**

Gobeithir gallu gwahodd Gwenan Roberts, Swyddog Trwyddedu Gwynedd i gyfarfod Mis Tachwedd

**Cyfarfod Adfywio / Partneriaeth – Prosiect Hwb / Lle yn y Dref**

Croesawyd Rhian George i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cafwyd diweddariad am yr ymdrechion i 'ail-lansio' Partneriaeth Dolgellau. Trafodwyd papurau a dderbyniwyd gan Y Cyng Jess John, hyn yn cynnwys Swydd Ddisgrifiad ar gyfer Cyd-lynydd i'r Partneriaeth Newydd. Yn Dilyn trafodaeth daethpwyd i'r cwestiwn sylfaenol-ydy'r Cyngor Tref yn gefnogoli gyflogi Cyd-lynydd am gostau o tua £270 y dydd.

Yn dilyn trafodaeth daethpwyd i'r farn unfrydol fod hyn yn 'rhoi'r gert o flaen y ceffyl' gan nad oes Cyfarwyddwyr ar gyfer y Partneriaeth Newydd y neu lle eto. Teimlai'r Cynghorwyr y dylid penodi Cyfarwyddwyr cyn gynted a phosib ac yn Dilyn y penodiadau hyn dylid ail-ymweld â'r mater o ariannu'r swydd.

5. **Adroddiad Ariannol**

Ni chafwyd adroddiad ariannol yn absenoldeb y Clerc

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng Peter Jones yn Dilyn cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 30.09.25
Efo'r System Newydd yn ei lle rhagwelir gweithredu archwiliadau gan yr is-bwyllgor yn fwy cyson yn ôl canllawiau Un Llais Cymru
Bydd hyn yn golygu y gall yr Is-bwyllgor yn gallu gwirio i gynorthwyo'r Clerc.

Nododd hefyd fod rhai materion wedi eu hamlygu yn Dilyn Archwiliad 2024-2025
Clywyd fod atebio a roddwyd ar holiadur yn golygu fod yr archwiliad yn amodol.

Amlygwyd yr angen i sicrhau fod y Cynghorwyr yn cwbwlhau Sesiynnau hyfforddi Un Llais Cymru.

Mae'r system bancio ar-lein i'r Cyungor bron yn ei le.

**Cyfnewid Gwybodaeth ac Adroddiadau, gan gynnwys materion a godwyd gan y Maer**

• Adroddiadau gan Aelodau'r Cyngor Tref, gan gynnwys Diweddariad gan y Maer – 50 mlynedd ers Cymdeithasu Trefi

Cyng Jo Checkley – Mae'r Cynghorydd wedi derbyn hyfforddiaqnt – rheolaeth gwybodaeth a oedd yn nodi'r polisïau sydd angen ar y Cyngor;

Siop Flodau yn cynnig blodau dros gaeaf. Derbyniwyd y cynnig ynunfrydol.

Cyng Liz Hughes–Adroddodd y Cyng Liz Hughes am gyflwr gwael y ffens rhwng Maes Talaran a siop Co-op. Y Cwmni sy'n eiddo ar y maes parcio sy'n gyfrifol am ei chynnal a chadw.

Cyng Peter Jones-

Cyng John Cadwaladr- Wedi mynychu cyfarfod o elusen Dr Williams

Heilyn Williams–

Cyng Ywain Myfyr- Holodd y Cynghorydd am sefyllfa bwrdd arddangos Newydd y Cyngor. Nid chafwyd diweddariad yn absenoldeb y Clerc.
Gofynodd y Cynghorydd Ywain Myfyr am gefnogaeth y Cyngor i'r ymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddol yn y gogoledd. Cafwyd cefnogaeth unfrydol i'r Cais. Bydd YM yn cysylltu â Sian Gwenllias AS i nodi'r penderfyniad hyn

Cyng Bob Gunton- yn Dilyn angladd y diweddar Clive Evans rhagwelir derbyn tua £1k tuag at olau Nadolig y dref. Cynigiodd Cyng Gunton y dylid addurno'r siop lle gweithredai clive Evans ynhyd â'r ardal gyfagos sef Melin Isaf o'r dref. Paiiwyd hyn yn unfrydol

Atgoffodd y Cyng Gunton o'r angen i Gynghorwyr ddefnyddio blwch ffôn coch ar Ffordd y Gader
Hysbysodd am arddangosfa Hydref 30ain yn y Ganolfan Hamdden gan Dragon Cycles Pump Track
Sefydlwyd is-bwyllgor ar gyfer trefniadau'r grant ar gyfer blodau – Aelodau'r is-bwyllgor fydd Liz Hughes, Jo Checkley a Bob Gunton – nodwyd fod angen gwario'r arian erbyn 21.10.25.

**Gohebiaeth**

• Cais Cynllunio NP5/57/867D - Hen Ysgol Glanwnion, Dolgellau

Nodwyd fod y Cyngor yn teimlo fod y giad ar gyfer y tai ar safle Ysgol Glanwnio yn edrych fel giat carchar.

8. **Cais Cynllunio os cânt eu derbyn**